

## Uned 3 ii

### Ffactorau Amgylcheddol sy'n Achosi Afiechyd mewn Anifeiliaid Fferm

#### Taflen Wybodaeth

Mae nifer o ffactorau yn yr amgylchedd sy'n effeithio ar iechyd anifeiliaid fferm. Edrychir ar y ffactorau mewn gwahanol sefyllfaoedd, dan do ac yn yr awyr agored.

1. Dwysedd stocio
2. Amodau Gorwedd a Draeniad
3. Tywydd Dan Do ac yn yr Awyr Agored
4. Golau Naturiol ac Artiffisial

#### 1. Dwysedd Stocio

Problemau sy'n gysylltiedig â gorstocio:

- i. **Dan Do**
- ii. **Yn yr Awyr Agored**

##### i. Dan Do

- **Gofod Aer** – mae diffyg awyru digonol (newid aer) yn gallu arwain at broblemau resbiradol fel niwmonia firaol
- **Gofod Bwydo** – mae diffyg lle mewn cafnau bwydo neu ar wyneb silwair yn gallu arwain at fwytawyr ofnus sydd ddim yn cael digon o fwyd
- **Haint** - mae heintiau anifeiliaid fel llau a tharwden yn fwy tebygol o ledu'n gyflymach os yw'r anifeiliaid wedi ei gwasgu'n agos at ei gilydd
- **Gwylidwriaeth** - mae'n anodd sylwi'n iawn ar anifeiliaid os ydyn nhw wedi eu gwasgu at ei gilydd. Efallai na ellir sbotio afiechyd cynnar, fel cloffni
- **Tail** – mae gormod o anifeiliaid mewn un lle'n golygu bod trwch y tail yn cynyddu'n gyflymach, a gall hyn arwain at broblemau traed fel Dermatitis Digidol
- **Straen** - gall gorstocio arwain at fwlio a straen, sy'n rhagueddu anifeiliaid i glefyd e.e. problemau ffrwythlondeb mewn heffrod
- **Gofod Gorwedd** - efallai nad oes digon o le i'r anifail orwedd i lawr a gorffwyso. Gall hwn achosi straen ac anffyniant.

##### ii. Yn yr Awyr Agored

- **Diffyg porfa** – perfformiad gwael a phroblemau ffrwythlondeb posibl mewn gwartheg godro
- **Cynnydd mewn lefelau llyngyr** - perfformiad gwael a marwolaeth posibl
- **Gorfod bwyta'n agosach i'r llawr** - lledu'r haint yn gynt e.e. Gastro-enteritis Parasitig (*PGE*) neu glefydau pridd Clostridiol
- **Risg cynyddol o fwyta porfa wenwynig** - dim digon o borfa ar gael.

#### 2. Amodau Gorwedd a Draeniad

- i. **Dan Do**
  - Mae lloi yn colli gwres corff ar loriau gwlyb ac oer

- Mae angen gwasarn i atal niwed e.e. garrau wedi chwyddo
- Mae heintiau'n ymledu mewn amgylcheddau cynnes, gwlyb ac asidig

#### ii. Yn yr Awyr Agored

- Yn ôl y ddeddf, mae gan anifeiliaid hawl i gael lle sych, caled, i orwedd arno
- Mae amodau gwlyb yn arwain at broblemau cloffni e.e. y llaid

### 3. Tywydd

#### i. Dan Do

Mae hinsawdd ficro'n bodoli mewn sied da byw.

Dylai'r sied fod:

- Ag awyriad da er mwyn osgoi niwmonia
- Â thymheredd tebyg i'r tu allan (dylid osgoi eithafoedd)
- Â dim drafftiau
- Â phatrwm symudiad aer da, awyr iach yn disodli hen aer
- Â'r gallu i reoli symudiad aer trwy ddull artiffisial fel ffannau, caeadau neu wresogyddion.

#### ii. Yn yr Awyr Agored

- Gallai anifeiliaid ifanc farw mewn amodau gwlyb, oer
- Eira - diffyg bwyd yn arwain at hypothermia neu glefyd yr eira
- Mannau agored – oeri mewn gwynt cryf, marwolaeth oherwydd oerfel neu berfformiad gwael
- Diffyg cysgod yn gwneud anifeiliaid yn oer, dan straen a ddim yn perfformio
- Glawiad uchel: mwy o broblemau cloffni a'r perygl o gynnydd mewn clefyd yr euod
- Llosg Haul/Twymyn Haul – oherwydd diffyg cysgod.

### 4. Golau Naturiol ac Artiffisial

Mae golau'n effeithio ar anifeiliaid mewn sawl ffordd:

- Mae lefelau gweithgaredd yn newid yn ôl tanbeidrwydd golau, yn enwedig mewn cywion
- Mae cychwyniad estrws mewn defaid yn dibynnu'n union ar hyd y dydd
- Mae golau haul yn cynhyrchu Fitamin D sydd ei angen ar gyfer esgyrn cryf
- Mae golau hefyd yn effeithio ar afiechyd a haint
- Mae ffermwyr yn cael trafferth i sbotio afiechydon mewn golau isel.

#### Crynodeb

Mae amgylchedd yr anifail fferm yn chwarae rhan fawr yn ei les, iechyd a'i gynhyrchedd.

Y ffermwr sydd yng ngofal yr amgylchedd ac yn gyfrifol am reoli'r amgylchedd. Mae'n hanfodol sicrhau bod anifeiliaid dan do â digon o le i orwedd a bwydo ac yn cael awyriad, gwasarn, golau a draeniad da. Yn yr awyr agored ni ellir rheoli'r tywydd. Fodd bynnag, mae darparu cysgod yn arfer dda.